**EITEM AR YR AGENDA: 9**

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**14 Rhagfyr 2015**

# ADOLYGIAD BLYNYDDOL O BENODIAD STATUDOL Y TRYSORYDD A'R CYTUNDEB LEFEL GWASANAETH

**Adroddiad gan Colin Everett, Clerc a Simon Smith, Prif Swyddog Tân**

## Diben yr Adroddiad

1 Rhoi gwybod i'r aelodau fod angen cynnal adolygiad o'r cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer darparu Trysorydd i'r Awdurdod Tân ac Achub, a'r trefniadau arfaethedig ar gyfer penodi i'r swydd statudol honno.

## Gwybodaeth

2 Bydd yr Aelodau'n ymwybodol fod nifer o swyddogaethau cefnogol yn dod drwy gontractau allanol gyda Heddlu Gogledd Cymru ac awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Dan y cytundeb hwn, mae yna dri cytundeb lefel gwasanaeth (CLA) rhwng Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (CBSC). Mae un ohonynt ar gyfer darparu gwasanaethau cyfreithiol, mae un arall ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol ac mae un ar gyfer penodiad statudol Trysorydd ar gyfer yr Awdurdod Tân ac Achub.

3 Mae rôl y Trysorydd wedi cael ei chyflawni dros yr 19 mlynedd ddiwethaf gan Mr Ken Finch. Cadarnhawyd y penodiad hwn gan yr Awdurdod Tân ym mis Mawrth 2015, gan gydnabod yr angen am barhad a phrofiad yn y rôl yn ystod yr adeg ariannol anodd hon. Llofnodwyd y cytundeb lefel gwasanaeth ym mis Mawrth 2015 ac roedd i fod i redeg am gyfnod o 5 mlynedd.

4 Fodd bynnag, mae Mr Finch ar fin gadael ei gyflogaeth gyda CBSC ddiwedd mis Ionawr 2016 ac felly daw'r trefniant presennol i ben a phrysuro'r angen i adolygu'r trefniadau presennol.

5 O fewn y cytundeb lefel gwasanaeth presennol, mae yna gyfleuster i adolygu'r trefniadau hyn yn flynyddol os cyfyd yr angen. Felly, cynigir adolygu'r cytundeb lefel gwasanaeth. Mae CBSC wedi dweud na fydd mewn sefyllfa i ddarparu Trysorydd gyda'i lefel bresennol o adnoddau a staff, a bydd angen gwneud penodiad drwy hysbyseb a phroses gystadleuol yn y flwyddyn ariannol newydd.

6 Yn y cyfamser, cynigir y gallai rôl y Trysorydd gael ei chyflawni gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân, sy'n gyfrifydd cymwysedig. Os bydd yr Aelodau'n cytuno i'r trefniant hwn, byddai gan Mrs Docx hawl i daliad ychwanegol o £597 y mis, sef y ffi *pro rata* ar gyfer y Trysorydd.

7 Bydd angen i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gadarnhau hefyd gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy y bydd un o'i swyddogion (sef Sandra Forrest ar hyn o bryd) yn parhau i fod yn swyddog atebol i gefnogi'r rôl S151, oherwydd bydd y cytundeb lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau ariannol yn parhau yn ei le. Byddai hyn yn cryfhau'r berthynas, yn lliniaru risg ac yn gymorth i lywodraethu corfforaethol ac ariannol.

**Argymhelliad**

8 Gofynnir i'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad a chymeradwyo adolygiad o'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth ar gyfer Trysorydd i'r Awdurdod.

9 Hefyd, gofynnir i'r Aelodau gymeradwyo'r trefniadau am y tro a'r broses benodi, fel yr amlinellir isod.